



Dogfen Reoleiddio

# Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth

**Medi 2015**

## **Rheoli Fersiynau**

Mae'r *Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth* yn nodi'r gofynion y mae angen i gorff dyfarnu eu cwrdd cyn y gallent ennill statws cydnabyddiaeth gan Cymwysterau Cymru, o dan y Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Bydd angen i sefydliadau sy'n dymuno bod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig gydymffurfio â'r meini prawf.

Mae'r ddogfen *Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth* (Mawrth 2012) wedi ei ddiwygio i gynnwys newidiadau a amlinellir yn y ddogfen "Newidiadau i'r Meini Prawf Dogfen am Gydnabyddiaeth" (Medi 2015.)

Anfonwch eich sylwadau ar ddogfen yma i [policy@qualificationswales.org](mailto:policy@qualificationswales.org).

# Cynnwys

<b>A – Hunaniaeth, Cyfansoddiad a Llywodraethu</b>	<b>2</b>
Hunaniaeth	2
Cyfansoddiad	2
Llywodraethu	2
<b>B – Uniondeb</b>	<b>3</b>
Uniondeb yr Ymgeisydd	3
Uniondeb Uwch Swyddogion	3
<b>C – Adnoddau a Chyllid</b>	<b>4</b>
<b>D – Cymhwysedd</b>	<b>4</b>
<b>Termau diffiniedig</b>	<b>6</b>

## **A – Hunaniaeth, Cyfansoddiad a Llywodraethu**

### **Hunaniaeth**

A.1 Mae'r Ymgeisydd yn berson hawdd ei adnabod (p'un a yw'n unigolyn neu'n gorff).

### **Cyfansoddiad**

A.2 Mae'r Ymgeisydd:

- (a) yn preswyllo fel arfer yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop, neu
- (b) wedi'i sefydlu'n gyfreithiol, neu â phresenoldeb sylweddol, yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop.

A.3 Oni bai bod yr Ymgeisydd yn unigolyn:

- (a) mae wedi'i gyfansoddi'n gywir yn unol â'r gyfraith
- (b) mae'n dal pob cofrestriad, awdurdodiad, neu gymeradwyaeth y mae'n ofynnol i berson o'r fath eu dal.

### **Llywodraethu**

A.4 Mae'r Ymgeisydd wedi'i drefnu a'i lywodraethu mewn modd a fydd yn darparu cymorth priodol ar gyfer ei weithgareddau fel corff dyfarnu cydnabyddedig.

A.5 Mae gan yr Ymgeisydd drefniadau priodol ar waith i sicrhau y bydd yn gallu:

- (a) nodi a monitro unrhyw Wrthdaro Buddiannau sy'n bodoli mewn perthynas â hynny;
- (b) rheoli unrhyw Wrthdaro Buddiannau sy'n ymwneud â hynny, i sicrhau nad yw'r Gwrthdaro Buddiannau yn arwain at ragfarnu Dysgwyr na darpar Ddysgwyr nac yn effeithio'n andwyol ar y canlynol:
  - (i) gallu'r Ymgeisydd i gyflawni'r broses o ddatblygu, cyflwyno neu ddyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod, unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo y bydd yn rhaid i'w gymwysterau eu bodloni;

(ii) safonau'r cymwysterau y gall yr Ymgeisydd eu darparu fel sefydliad dyfarnu a gydnabyddir, neu

(iii) hyder y cyhoedd mewn cymwysterau.

A.6 Os nad unigolyn yw'r Ymgeisydd, mae ganddo drefniadau priodol ar waith i sicrhau y bydd gan ei Gorff Llywodraethu drosolwg parhaus o'r canlynol, ac y bydd yn uniongyrchol atebol amdanynt:

(a) perfformiad ei weithgareddau fel sefydliad dyfarnu a gydnabyddir;

(b) ei fod yn cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod, a bod ei gymwysterau yn cydymffurfio ag unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo.

## **B – Uniondeb**

### **Uniondeb yr Ymgeisydd**

B.1 Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd fod yn berson addas i gael ei gydnabod am ddyfarnu'r cymwysterau perthnasol, gan ystyried y canlynol yn benodol:

(a) unrhyw gollfarnau troseddol sydd ganddo;

(b) unrhyw ganfyddiad gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddio neu lywodraeth ei fod wedi torri unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â Chyfraith Cystadleuaeth, Cyfraith Cydraddoldeb, neu Gyfraith Diogelu Data;

(c) unrhyw ganfyddiad gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddio neu lywodraeth ei fod wedi torri unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu unrhyw rwymedigaeth reoleiddio y mae'n ddarostyngedig iddi;

(d) unrhyw achos o ansolfedd neu ailstrwythuro ariannol corfforaethol y mae'n ddarostyngedig iddo neu wedi bod yn ddarostyngedig iddo.

### **Uniondeb Uwch Swyddogion**

B.2 Mae'n rhaid i bob un o Uwch Swyddogion yr Ymgeisydd fod yn berson addas i ymgymryd â'r rôl honno mewn corff dyfarnu sy'n cael ei gydnabod am ddyfarnu'r cymwysterau perthnasol, gan ystyried y canlynol yn benodol:

- (a) unrhyw gollfarnau troseddol sydd ganddo/ganddi;
- (b) unrhyw ganfyddiad gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddio neu lywodraeth ei fod ef neu hi wedi torri unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu unrhyw rwymedigaeth reoleiddio y mae ef neu hi yn ddarostyngedig iddi;
- (c) unrhyw achos o fethdaliad neu unrhyw drefniadau ariannol unigol y mae ef neu hi yn ddarostyngedig iddynt neu wedi bod yn ddarostyngedig iddynt;
- (d) unrhyw achlysur pan ei fod ef neu hi wedi cael ei wahardd/ei gwahardd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni neu ymgymryd â swydd gyhoeddus;
- (e) unrhyw ganfyddiad o gamymddwyn neu gamweinyddu mewn perthynas â chymhwyster (p'un a yw'n gymhwyster a reoleiddir neu beidio), y mae ef neu hi yn ddarostyngedig iddo neu wedi bod yn ddarostyngedig iddo.

## **C – Adnoddau a Chyllid**

C.1 Mae gan yr Ymgeisydd y canlynol, neu mae ganddo drefniadau priodol ar waith i sicrhau y bydd ganddo:

- (a) y systemau, prosesau ac adnoddau
- (b) yr adnoddau a chyfleusterau ariannol

i'w alluogi i gyflawni, yn unol â'i Amodau Cydnabod neu unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo a roddwyd ar ei gymwysterau, y broses o ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu unrhyw gymhwyster y gall ei ddarparu fel sefydliad dyfarnu a gydnabyddir.

## **D – Cymhwysedd**

D.1 Mae dealltwriaeth yr Ymgeisydd o'r broses o ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau, a'i ymrwymiad iddi a'i ddull gweithredu, yn ddigonol, gan ystyried yr angen i sicrhau'r canlynol:

- (a) bydd yn gallu cyflawni, yn unol â'i Amodau Cydnabod neu unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo a roddwyd ar ei gymwysterau, y broses o ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu unrhyw gymhwyster y gall ei ddarparu fel sefydliad dyfarnu a gydnabyddir;

(b) mae'n rhaid i unrhyw gymhwyster o'r fath, cyn belled â phosibl, fod yn Ddilys, yn Ddibynadwy, yn Gymaradwy, yn Hydrin a Lleihau Tuedd

(c) mae'n rhaid i unrhyw gymhwyster o'r fath fod yn gydnaws â gofynion Cyfraith Cydraddoldeb.

## Dehongliad

Yn y meini prawf hyn, bydd y rheolau dehongli canlynol yn gymwys:

1) Oni fydd y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, yn y meini prawf hyn:

(a) bydd geiriau sy'n awgrymu'r gwrywaidd yn cynnwys y fenywaidd (ac i'r gwrthwyneb);

(b) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog (ac i'r gwrthwyneb);

(c) \*Nid yw'r rheol canlynol yn berthnasol yn y Gymraeg (*"references to 'it' are to be read as including references to 'he' and 'she' (and vice versa);*

(d) mae'r geiriau 'yn benodol' yn nodi rhestr o enghreifftiau ac ni ddylid ystyried eu bod yn cyfyngu ar gwmpas y geiriau sy'n dod o'u blaenau;

(e) mae cyfeiriadau at 'berson' yn cynnwys unrhyw gorff o bobl, p'un a yw'n gorfforaethol neu'n anghorfforaethol;

(f) mae 'cymhwyster' yn golygu cymhwyster a reoleiddir (ac yn cynnwys unrhyw unedau o'r cymhwyster hwnnw);

(g) mae 'cymhwyster perthnasol' yn cyfeirio at unrhyw gymhwyster y mae'r Ymgeisydd yn gwneud cais am gydnabyddiaeth yn ei gylch, neu sy'n dod o fewn disgrifiad cymwysterau y mae'r Ymgeisydd yn gwneud cais am gydnabyddiaeth yn eu cylch;

(h) mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol neu fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno neu fesur hwnnw.

2) Mae teitlau a phenawdau yn y meini prawf hyn er gwybodaeth yn unig ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion dehongli.

## Termau diffiniedig

Yn y meini prawf hyn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyr a roddwyd iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny):

**Amodau Cydnabod Safonol** Amodau cydnabod Yr holl amodau y mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys amodau safonol a bennwyd o dan amserlen 3 Deddf Cymwysterau Cymru 2015.)

**Canolfan** Sefydliad sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i Ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

**Corff llywodraethu** Pan fo'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, bwrdd cyfarwyddwyr y corff dyfarnu. Pan nad yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, person neu grŵp o bobl sydd â statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol y corff dyfarnu.

**Cyfraith Cydraddoldeb** Deddf Cydraddoldeb 2010, unrhyw Ddeddf a oedd yn rhagflaenydd statudol i'r Ddeddf honno, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru sydd ag effaith a diben cyfatebol.

**Cyfraith cystadleuaeth** Deddf Cystadleuaeth 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru sydd ag effaith a diben cyfatebol.

**Cyfraith diogelu data** Deddf Diogelu Data 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru sydd ag effaith a diben cyfatebol.

## **Cymaradwy**

Deilliannau asesu lle gellir cymharu safonau rhwng asesiadau o fewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda sefydliadau dyfarnu eraill, a thros amser. Lle mae gan asesiad ffurfiau cyfatebol mae'n bwysig sicrhau bod modd cymharu deilliannau. Mae dau reswm dros hyn:

- (a) Gwneud cymariaethau teg am gyrhaeddiad Dysgwyr: Mae'n amhosibl cynhyrchu ffurfiau gwahanol â'r un cynnwys a manylebau ystadegol yn union (megis lefel anhawster neu alw ar y Dysgwr). Felly, mae gofyniad i sicrhau deilliannau cymaradwy yn gwneud yn siŵr bod lefel anhawster neu alw ffurfiau'r prawf yn cael eu hystyried wrth osod safonau fel y gellir cymharu Dysgwyr sy'n astudio'r ffurfiau gwahanol yn deg,
- (b) Sicrhau y gellir defnyddio'r deilliannau fel mesur o safonau: Mae'n rhaid i ddeilliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf fod yn gymaradwy er mwyn eu defnyddio i fesur safonau dros amser. Gellir defnyddio dyfarniadau arbenigol a gweithdrefnau ystadegol megis hafalu prawf i sicrhau bod modd cymharu deilliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw asesiadau mor debyg fel eu bod yn rhagweladwy, gan y byddai hyn yn fygythiad i Ddilysrwydd y cymhwyster.

## **Dibynadwy**

Mae dibynadwyedd yn ymwneud â chysondeb ac felly mae'n ymwneud â'r graddau y mae amrywiol gamau'r broses asesu yn arwain at ddeilliannau a gâi eu dyblygu ped ailadroddwyd yr asesiad. Mae'n rhaid i gymhwyster fod yn Ddibynadwy fel un o amodau angenrheidiol Dilysrwydd y cymhwyster, gan nad yw'n bosibl dangos Dilysrwydd proses asesu nad yw'n Ddibynadwy. Mae amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar Ddibynadwyedd asesiad, megis y broses o samplu tasgau asesu ac anghysondeb yng ngwaith marcio aseswyr dynol.



**Dilys** Pan fo tystiolaeth a theori yn ategu'r dehongliad bod y deilliannau asesu yn bodloni eu defnydd bwriadedig. Er mwyn gwerthuso Dilysrwydd, rhaid datblygu dadl glir i ategu'r dehongliad arfaethedig o'r deilliannau ac, o ganlyniad, y defnydd y bwriedir ei wneud o'r asesiad. Dylai'r ddatl am Ddilysrwydd fod yn seiliedig ar ddatganiadau o'r dehongliad arfaethedig a thystiolaeth ategol a gasglwyd yn ystod pob cam o'r broses asesu.

**Dysgwr** Person sydd wedi'i gofrestru i astudio cymhwyster a chael ei asesu fel rhan o'r cymhwyster hwnnw.

**y Ddeddf** Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

**Grŵp** Pan fo'r Ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig, grŵp sy'n cynnwys unrhyw un o gwmnïau'r Ymgeisydd sy'n gwmni daliannol yn is-gorff neu'n is-gorff cwmni daliannol. Pan nad yw'r Ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig, person neu grŵp o bobl sydd â statws cyfatebol.

**Gwrthdaro buddiannau** Mae gwrthdaro buddiannau yn bodoli mewn perthynas ag Ymgeisydd lle mae'r canlynol yn gymwys:

(a) mae gan ei fuddiannau mewn unrhyw weithgarwch a gynhelir ganddo, ar ei ran, neu gan aelod o'i Grŵp y potensial i'w arwain i weithredu'n groes i'w fuddiannau yn y broses o ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod neu unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo a roddwyd ar ei gymwysterau;

(b) mae gan berson sy'n gysylltiedig â'r broses o ddatblygu, cyflwyno neu ddyfarnu cymwysterau gan yr Ymgeisydd fuddiannau mewn unrhyw weithgarwch arall sydd â'r potensial i arwain y person hwnnw i weithredu'n groes i'w fuddiannau ef neu hi yn y broses honno o ddatblygu, cyflwyno neu ddyfarnu

yn unol ag Amodau Cydnabod yr Ymgeisydd, neu unrhyw feini prawf cymeradwyo neu amodau cymeradwyo a roddwyd ar ei gymwysterau;

(c) byddai sylwedydd hyddysg a rhesymol yn dod i'r casgliad mai felly y mae yn y naill sefyllfa neu'r llall.

### **Hydrin**

Mae hydrinedd yn ymwneud â dichonoldeb cynnal prosesau asesu penodol. Mae proses asesu hydrin yn broses sy'n gosod gofynion rhesymol ar Ganolfannau a Dysgwyr. Bydd gwerthuso rhesymoldeb y gofynion yn seiliedig ar y graddau y caiff y cyfranogwyr eu hasesu, wedi'i gydbwysu gan ddefnyddioldeb y canlyniadau. Fel gyda'r gofynion eraill (bod y cymhwyster yn Ddilys, yn Ddibynadwy, yn Gymaradwy ac yn Lleihau Tuedd), mae'n rhaid cydbwysu dyfarniadau ynghylch hydrinedd y cymhwyster ag ystyriaethau mewn perthynas â'r gofynion eraill.

### **Lleihau tuedd**

Nod lleihau tuedd yw sicrhau na fydd trefniadau asesu yn arwain at ddeilliannau afresymol o andwyol i Ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin. Mae Lleihau Tuedd yn ymwneud â sicrhau tegwch i bob Dysgwr ac mae hefyd yn ymwneud i raddau helaeth â dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

### **Uwch swyddog**

Cyfarwyddwr neu uwch swyddog gweithredol yr Ymgeisydd neu, pan nad yw'r Ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig, person mewn swydd â statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol yr Ymgeisydd.

### **Ymgeisydd**

Y person sydd wedi gwneud cais i Cymwysterau Cymru i gael ei gydnabod yn gorff dyfarnu yn unol ag adran 5 y Ddeddf.